# Minutes of Culture, Tourism & Communications Committee Wednesday, 25 September 2024, at 2pm. Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present:** Cllrs. Rob Marshall (Vice Chair), Tim Zhou, Martin O'Neill, Rhian Evans and Hannah Hunter

**Co-opted members Present:** Pip Reason

**Officer Present:** Paul Beynon - RFO and Ian Hughes – CSO

CT2409-01 **Apologies for Absence**

Cllrs Richard Jarvis, Rhian Evans and Angela O'Connor (Chair)

CT2409-02 **Declarations of Interest**

None

CT2409-03 Minutes of the Previous Meetings of the Committee

To approve the minutes of the meeting held on the 24th July 2024 as a true record.

**RESOLVED:** To approve the meeting minutes held on 24th July 2024 as an accurate record.

CT2409-04 **Update on actions from previous meetings.**

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'actions' to committee members.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

Mumbles Community Council

CT2409-05 **Budget Monitoring Report to 31/07/2024 - RFO, Paul Beynon**

Reports attached.

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon who had previously distributed the reports to committee members.

The RFO outlined how all the projects were currently within budget with the exception of MumblesFest 2024 which is slightly overspent. However this is offset by income received at The MumblesFest Event together with an anticipated £500 refund from SCC as there was no damage to the field as first suggested.

No issues to be take forward to October Meeting.

No questions relating to the budget reports had been provided either to the CSO or the RFO prior to the meeting, and no questions were raised at the meeting.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31st July 2024.

CT2407-06 **Budget 2025/26**

The RFO had previously set out at Full Council the importance of a budgeting timetable for the remainder of the financial year, looking ahead through planning at committee meetings and the early submission of budget proposal forms.

Cllr Marshall reminded members that decisions on budgeting issues including budgeting proposal forms needed to be carried out at November's Meeting. Due to the lack of money available in light of The Ostreme Re-Developmentr Programme alternative means of generating money also needed to be considered including external funding and sponsorship.

The RFO informed the committee that any new budget proposal forms, including one for MumblesFest 2025, should additional funding be required, be submitted for October meeting. Following debate in October all budget proposal forms together with other budgetary considerations will need to be recommended at November Meeting.

CT2409-07 **Essence of Mumbles Update**

Cllr O'Neill detailed how the project was now operational, having been launched online. Although enquiries had been made regarding enrolling into the competition, greater public awareness was required particularly through the use of social media.

Cllr Zhou outlined how he had liaised with Swansea and TSD Universities together with Gower College and a number of local charities for the purpose of promoting the competition. Cllr Zhou will next be contacting schools and distributing posters to cafes, doctors' practices, Churches and other key venues.

Mumbles Community Council

**ACTION:** Cllr Zhou to liaise with schools to promote competition through contact with MCC school governors providing input for school newsletters.

**ACTION:** CSO to provide Cllr Zhou with details of school governors.

**ACTION:** Cllr Zhou to arrange distribution of posters to suitable establishments within MCC as described above.

CT2409-08 **Calendar of Events**

Discussion took place over benefits of having a long-term calendar of events, which would allow for preparations to be made including the booking of facilities and costings to be made.

**RECOMMENDATION:** That subject to budget availability, Full Council approve in principle the proposed calendar of events (previously distributed) and delegate powers to arrange such events to the Culture, Tourism and Communication Committee.

CT2409-09 **Mumbles Folk and Blues Festival Update**

Cllr Marshall provided an update on behalf of Cllr Jarvis. The Autumn of 2025 would be the most appropriate time. Dates of 4$^{th}$ and 11$^{th}$ October 2025 were considered as this would ensure that the event would not clash with the autumn rugby internationals, also the 4$^{th}$ October would coincide with Octoberfest event taking place that weekend.

In terms of budgeting, Swansea Building Society have offered to provide assistance to Cllr Jarvis in terms of potential sponsorship and arranging a fundraising event in June 2025. Although it is hoped that the event will be self-financing contingency plans will need to be considered at November's Committee Meeting.

**RECOMMENDATION:** That Full Council approve a Mumbles Folk and Blues Festival on Sunday 4$^{th}$ October 2025 with delegated powers to arrange the event being provided to the Culture, Tourism and Communication Committee. Financing the event will be subject to budgetary availability.

**ACTION:** Cllr Jarvis to consider budget arrangements for the event including the completion of a budget proposal form.

CT2409-10 **Tourism Information Access**

Deferred to October's Meeting

Mumbles Community Council

CT2409-11 **VE 80th Anniversary Celebrations**

Claire Anderson had prepared a budget proposal form which had been circulated to committee members prior to the meeting. It was suggested to hold an event to commemorate the 80th anniversary of the Victory in Europe on Thursday 8th May 2025 at The Ostreme Centre. The event will be hosted by Rob Pendry with wartime music being played and afternoon tea being provided. Together with decorations and other ancillary expenditure the overall cost is expected to be in the region of £1,840.
Pip Reason also suggested utilising the World War Two Museum off Jersey Marine, Swansea to enhance the event.

**RECOMMENDATION:** That Full Council approve a VE 80th Anniversary Celebration on Thursday 8th May 2025 at the Ostreme Centre at a cost of up to £2,000 subject to budget availability.

CT2409-12 **Beer Festival 'OctoberFest'**

Claire Anderson is currently considering options with The Chair, Cllr O'Connor.

**ACTION:** Update to be provided at October Meeting (Cllr O'Connor/Claire Anderson)

CT2409-13 **Newsletter**

Claire Anderson set out the options of retaining the current system of circulating printed newsletters as opposed to moving towards the letters being digitally circulated. Currently 8,000 newsletters are produced and the cost of printing and distribution through Royal Mail is £4,025.

A discussion ensued over the merits of moving to a digitally circulated newsletter which would include the saving of considerable money for other projects; but concern was raised over elderly residents potentially missing out on information through lack of internet access.

A compromise was suggested that a limited number of newsletter (perhaps a 1,000) be printed off and made available at key locations such as cafes, libraries, doctors surgeries, allowing elderly residents access to them. In addition, newsletters could be made available at Ostreme at events such as Coffee With Friends or advertising through banners, posters or adverts in publications including The Evening Post.

**RECOMMENDATION:** That Full Council approve the use of a digital newsletter to be used in conjunction with a limited distribution of a printed newsletter.

Mumbles Community Council

CT2409-14 **Halloween Disco for 14-17yrs at CU**

Claire Anderson had prepared a budget proposal form which had been circulated to committee members prior to the meeting. Claire outlined that the age group in question was not well catered for within MCC and that this disco would be a 'pilot' for other such events including a Christmas Disco. Funding would be covered through the use of the current underspent budget and the cost of venue, snacks and DJ would amount to £565.

**RECOMMENDATION:** That Full Council approve a Halloween Disco for 14 to 17 years old at a venue to be confirmed on Tuesday 29th October 2024. The cost of the event will be £565 which will be funded through the underspent budget subject to budget availability.

CT2409-15 **February Family Fun Days**

A discussion took place on amalgamating four separate fun days during the half term of February 2025 into two events, whereby Oystermouth and Newton would share an event and West Cross and the Mayals would similarly share an event. Unlike Easter or Summer Holidays half terms are restricted to just one week making arrangements for multiple events difficult to arrange.

During the discussion it became apparent that responsibility for Fun Days falls within the auspices of The Community and Social Development Committee. No discussion took place on funding these events.

**ACTION:** The CSO to contact Cllr Ian Scott, the Chair of The Community and Social Development Committee and seek his views on making a recommendation to Full Council, that only two Family Fun Days take place in February's Half Term for the reasons set out above.

CT2409-16 **Honour of Mumbles**

A discussion took place on how best to honour local persons who have made a valuable contribution to the area, particularly those like Margaret Thrush who have volunteered their services for good causes. It was the opinion of the committee that guidance on how to select nominees and honour them should be decided by Full Council.

**RECOMMENDATION:** That Full Council adopt a policy for honouring local persons within MCC for their notable contribution to the area. The policy would include both a nomination/selection process and the manner in which the honour should be bestowed.

**The meeting ended at 2.55pm.**

**Next Meeting on 23 October 2024**

# Cofnodion y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu Dydd Mercher, 25 Medi 2024, am 2pm. Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y cynghorwyr Rob Marshall (Is-gadeirydd), Tim Zhou, Martin O'Neill, Rhian Evans a Hannah Hunter

**Aelodau cyfetholedig yn bresennol:** Pip Reason

**Swyddogion yn bresennol:** Paul Beynon – Swyddog Ariannol Cyfrifol ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

CT2409-01 **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y cynghorwyr Richard Jarvis, Rhian Evans ac Angela O'Connor (Cadeirydd)

CT2409-02 **Datganiadau o fuddiant**
Dim

CT2409-03 Cofnodion cyfarfodydd blaenorol y pwyllgor
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2024 fel rhai cywir.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2024 fel cofnod cywir.

CT2409-04 **Diweddariad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol.**
Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cymryd ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD:** Camau gweithredu heb eu cwblhau wedi'u diweddaru a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.

Mumbles Community Council

CT2409-05

**Adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2024 – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon**
Mae'r adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

Amlinellodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol sut roedd yr holl brosiectau o fewn eu cyllidebau ar hyn o bryd ac eithrio Gŵyl y Mwmbwls 2024, sydd wedi gorwario ychydig. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan incwm a dderbyniwyd yn nigwyddiad Gŵyl y Mwmbwls ynghyd ag ad-daliad o £500 a ragwelir gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe gan nad oedd unrhyw ddifrod i'r cae fel yr awgrymwyd yn gyntaf.

Dim materion i'w dwyn ymlaen i gyfarfod mis Hydref.

Nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r adroddiadau cyllideb wedi'u darparu naill ai i'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau na'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn y cyfarfod, ac ni chodwyd unrhyw gwestiynau yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2024.

CT2407-06

**Cyllideb 2025/26**
Roedd y Swyddog Ariannol Cyfrifol eisoes wedi nodi yn y cyngor llawn bwysigrwydd amserlen gyllidebu ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol, gan edrych ymlaen drwy gynllunio mewn cyfarfodydd pwyllgor a chyflwyno ffurflenni cynnig cyllideb yn gynnar.

Atgoffodd y Cynghorydd Marshall yr aelodau bod angen gwneud penderfyniadau ar faterion cyllidebu, gan gynnwys ffurflenni cynnig cyllidebu, yng nghyfarfod mis Tachwedd. Oherwydd y diffyg arian sydd ar gael yn sgil Rhaglen Ailddatblygu'r Ostreme, roedd angen hefyd ystyried dulliau eraill o gynhyrchu arian, gan gynnwys cyllid allanol a nawdd.

Dywedodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol wrth y pwyllgor y dylai unrhyw ffurflenni cynnig cyllideb newydd, gan gynnwys un ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls 2025, pe bai angen cyllid ychwanegol, gael eu cyflwyno ar gyfer cyfarfod mis Hydref. Yn dilyn trafodaeth ym mis Hydref, bydd angen i bob ffurflen cynnig cyllideb, ynghyd ag ystyriaethau cyllidebol eraill, gael eu hargymell yng nghyfarfod mis Tachwedd.

Mumbles Community Council

CT2409-07

**Diweddariad ar Naws y Mwmbwls**
Manylodd y Cynghorydd O'Neill ar sut roedd y prosiect bellach yn weithredol, ar ôl ei lansio ar-lein. Er bod ymholiadau wedi'u gwneud ynghylch cofrestru ar gyfer y gystadleuaeth, roedd angen mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, yn enwedig drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Amlinellodd y Cynghorydd Zhou sut yr oedd wedi cysylltu â Phrifysgol Abertawe a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant, ynghyd â Choleg Gŵyr a nifer o elusennau lleol, er mwyn hyrwyddo'r gystadleuaeth. Bydd y Cynghorydd Zhou yn cysylltu ag ysgolion nesaf ac yn dosbarthu posteri i gaffis, meddygfeydd, eglwysi a lleoliadau allweddol eraill.

**CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Zhou i gysylltu ag ysgolion i hyrwyddo'r gystadleuaeth trwy gysylltu â llywodraethwyr ysgolion Cyngor Cymuned y Mwmbwls, gan roi mewnbwn i gylchlythyrau ysgolion.

**CAM GWEITHREDU:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i roi manylion llywodraethwyr ysgolion i'r Cynghorydd Zhou.

**CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Zhou i drefnu dosbarthu posteri i sefydliadau addas o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls fel y disgrifir uchod.

CT2409-08

**Calendr o ddigwyddiadau**
Cafwyd trafodaeth ynghylch manteision cael calendr hirdymor o ddigwyddiadau, a fyddai'n caniatáu i baratoadau gael eu gwneud, gan gynnwys archebu cyfleusterau a phennu costau.

**ARGYMHELLIAD:** Yn amodol ar argaeledd cyllideb, bod y cyngor llawn yn cymeradwyo mewn egwyddor y calendr arfaethedig o ddigwyddiadau (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ac yn dirprwyo pwerau i drefnu digwyddiadau o'r fath i'r Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu.

CT2409-09

**Diweddariad ar Ŵyl Werin a Blŵs y Mwmbwls**
Rhoddodd y Cynghorydd Marshall ddiweddariad ar ran y Cynghorydd Jarvis. Hydref 2025 fyddai'r amser mwyaf priodol. Ystyriwyd dyddiadau 4 a 11 Hydref 2025 gan y byddai hyn yn sicrhau na fyddai'r digwyddiad yn gwrthdaro â gemau rygbi rhyngwladol yr hydref, a hefyd byddai 4 Hydref yn cyd-daro â digwyddiad Oktoberfest y penwythnos hwnnw.

O ran cyllidebu, mae Cymdeithas Adeiladu Abertawe wedi cynnig rhoi cymorth i'r Cynghorydd Jarvis o ran nawdd posibl a threfnu digwyddiad codi arian ym mis Mehefin 2025. Er y gobeithir y bydd y digwyddiad yn un hunangyllidol, bydd angen ystyried cynlluniau wrth gefn yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Tachwedd.

**ARGYMHELLIAD:** Bod y cyngor llawn yn cymeradwyo Gŵyl Werin a Blŵs y Mwmbwls ar ddydd Sul 4 Hydref 2025 gyda phwerau dirprwyedig i drefnu'r digwyddiad yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu. Bydd ariannu'r digwyddiad yn amodol ar argaeledd cyllideb.

**CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Jarvis i ystyried trefniadau cyllideb ar gyfer y digwyddiad, gan gynnwys cwblhau ffurflen cynnig cyllideb.

CT2409-10

**Mynediad at wybodaeth i dwristiaid**
Gohiriwyd i gyfarfod mis Hydref.

CT2409-11

**Dathliadau 80 mlynedd ers Diwrnod VE**
Roedd Claire Anderson wedi paratoi ffurflen cynnig cyllideb a oedd wedi'i dosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod. Awgrymwyd cynnal digwyddiad i goffáu 80 mlynedd ers y Fuddugoliaeth yn Ewrop ddydd Iau, 8 Mai 2025, yng Nghanolfan Ostreme. Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal gan Rob Pendry gyda cherddoriaeth amser rhyfel yn cael ei chwarae a the prynhawn yn cael ei ddarparu. Ynghyd ag addurniadau a gwariant atodol arall, disgwylir y bydd y gost gyffredinol oddeutu £1,840. Awgrymodd Pip Reason hefyd y dylid defnyddio Amgueddfa'r Ail Ryfel Byd ger Jersey Marine, Abertawe, i wella'r digwyddiad.

**ARGYMHELLIAD:** Bod y cyngor llawn yn cymeradwyo Dathliad Pen-blwydd VE yn 80 ar ddydd Iau, 8 Mai 2025, yng Nghanolfan Ostreme am gost o hyd at £2,000, yn amodol ar argaeledd cyllideb.

CT2409-12

**Gŵyl Gwrw 'Oktoberfest'**
Mae Claire Anderson wrthi'n ystyried opsiynau gyda'r Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor.

**CAM GWEITHREDU:** Diweddariad i'w ddarparu yng nghyfarfod mis Hydref (y Cynghorydd O'Connor / Claire Anderson).

CT2409-13

**Cylchlythyr**
Amlinellodd Claire Anderson yr opsiynau ar gyfer cadw'r system bresennol o ddosbarthu cylchlythyrau wedi'u hargraffu yn hytrach na symud tuag at ddosbarthu'r llythyrau'n ddigidol. Ar hyn o bryd, cynhyrchir 8,000 o gylchlythyrau a chost argraffu a dosbarthu drwy'r Post Brenhinol yw £4,025.

Cafwyd trafodaeth ar rinweddau symud i gylchlythyr digidol, a fyddai'n cynnwys arbed arian sylweddol ar gyfer prosiectau eraill; ond mynegwyd pryder ynghylch trigolion oedrannus o bosibl yn colli allan ar wybodaeth oherwydd diffyg mynediad i'r rhyngrwyd.

Awgrymwyd cyfaddawd, sef y dylid argraffu nifer cyfyngedig o gylchlythyrau (efallai 1,000) a'u dosbarthu mewn lleoliadau allweddol megis caffis, llyfrgelloedd, meddygfeydd ac ati, gan ganiatáu i drigolion oedrannus gael mynediad atynt. Yn ogystal, gallai cylchlythyrau fod ar gael yng Nghanolfan Ostreme mewn digwyddiadau fel Coffi gyda Chyfeillion neu eu hysbysebu trwy faneri, posteri, neu hysbysebion mewn cyhoeddiadau, gan gynnwys *The Evening Post*.

**ARGYMHELLIAD:** Bod y cyngor llawn yn cymeradwyo defnyddio cylchlythyr digidol i'w ddefnyddio ar y cyd â dosbarthiad cyfyngedig o gylchlythyr argraffedig.

CT2409-14 **Disgo Calan Gaeaf i blant 14-17 oed yn CU**

Roedd Claire Anderson wedi paratoi ffurflen cynnig cyllideb a oedd wedi'i dosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod. Amlinellodd Claire nad oedd darpariaeth dda ar gyfer y grŵp oedran dan sylw yng Nghyngor Cymuned y Mwmbwls ac y byddai’r disgo hwn yn ‘beilot’ ar gyfer digwyddiadau eraill o’r fath, gan gynnwys Disgo Nadolig. Byddai'r cyllid yn cael ei dalu drwy ddefnyddio'r gyllideb bresennol o danwariant a byddai cost lleoliad, byrbrydau a DJ yn dod i £565.

**ARGYMHELLIAD:** Bod y cyngor llawn yn cymeradwyo Disgo Calan Gaeaf ar gyfer plant 14 i 17 oed mewn lleoliad i'w gadarnhau ddydd Mawrth, 29 Hydref 2024. Cost y digwyddiad fydd £565, a ariennir drwy'r gyllideb tanwariant yn amodol ar argaeledd y gyllideb.

CT2409-15 **Diwrnodau Hwyl i'r Teulu ym mis Chwefror**

Cafwyd trafodaeth ar gyfuno pedwar diwrnod hwyl gwahanol yn ystod hanner tymor ym mis Chwefror 2025 yn ddau ddigwyddiad, lle byddai Ystumllwynarth a Newton yn rhannu digwyddiad a byddai West Cross a Mayals yn rhannu digwyddiad yn yr un modd. Yn wahanol i wyliau’r Pasg neu’r haf, mae gwyliau hanner tymor wedi’u cyfyngu i wythnos yn unig, sy’n golygu ei bod yn anodd trefnu digwyddiadau lluosog. Yn ystod y drafodaeth, daeth i'r amlwg fod cyfrifoldeb am ddiwrnodau hwyl yn dod o dan adain y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol. Ni chafwyd trafodaeth ar ariannu'r digwyddiadau hyn.

**CAM GWEITHREDU:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i gysylltu â’r Cynghorydd Ian Scott, Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol, a gofyn am ei farn ar wneud argymhelliad i’r cyngor llawn mai dim ond dau Ddiwrnod Hwyl i’r Teulu sy’n cael eu cynnal yn ystod hanner tymor ym mis Chwefror, am y rhesymau a nodir uchod.

Mumbles Community Council

CT2409-16 **Anrhydedd y Mwmbwls**

Cafwyd trafodaeth ar y ffordd orau o anrhydeddu pobl leol sydd wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r ardal, yn enwedig y rhai fel Margaret Thrush sydd wedi gwirfoddoli eu gwasanaeth dros achosion da. Barn y pwyllgor oedd y dylai canllawiau ar sut i ddewis enwebeion a'u hanrhydeddu gael eu penderfynu gan y cyngor llawn.

**ARGYMHELLIAD:** Bod y cyngor llawn yn mabwysiadu polisi ar gyfer anrhydeddu pobl leol o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls am eu cyfraniad nodedig i'r ardal. Byddai'r polisi'n cynnwys proses enwebu/ddethol a'r modd y dylid rhoi'r anrhydedd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.55pm.**

**Bydd y cyfarfod nesaf ar 23 Hydref 2024.**